Technium®
Cystadleuaeth

Cystadleuaeth Technium

cystadleuaeth cynllunio busnes sy'n cefnogi tyfiant mewn busnesau technoleg newydd ar gyfer mentrau sydd yn y cyfnod cynnar o fewn y D.U.

www.technium.co.uk/challengeuk

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

ERDF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Regional Development Fund

Her Technium yw prif gystadleuaeth cynllunio busnes y DU yn yr a

Manteision y Gystadleuaeth

- Pecyn o wobrau gwerth £30,000 i'r enillwyr, gan gynnwys **defnydd o swyddfa am gyfnod o flwyddyn** mewn un o'r deuddeg o ganolfannau arloesi Technium ledled Cymru.
- Cynigir **cefnogaeth broffesiynol pwrpasol am ddim** i'r holl ymgeiswyr,er mwyn datblygu cynllun busnes gadarn ac i helpu drosglwyddo syniadau yn gynigion busnes llwyddiannus.
- Mae bob ymgeisydd yn medru cymryd rhan mewn nifer o **ddigwyddiadau rhwydweithio am ddim** gyda'r bwriad o gwrdd ag ymgeiswyr eraill, a bobl broffesiynol ym maes cefnogaeth busnes.

"Nid yw dechrau cwmni Biotechnoleg yn beth hawdd. Ond, ar ôl cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Technium ac ennill y gystadleuaeth, rydym yn awr wedi medru sefydlu ein cwmni yng Nghymru, a diolchwn aelodau Technium a thîmau Cynulliad Cymru am eu cefnogaeth a chymorth parhaol," **meddai Justin John, enillydd Iechyd Anifeiliaid y D.U. yn 2009.**

Meini Prawf Cymhwyster

Mae Her Technium yn agored i fusnesau newydd ym maes technoleg neu wybodaeth (h.y. busnesau nad ydynt wedi bodyn masn achu am ddwy flynedd) a busnesau sy'n bwriadu dechrau masnachu.

Sut i Ymgeisio

Mae angen i gystadleuwyr gofnodi eu diddordeb trwy lenwi ffurflen gais fer. Mae hon ar gael ar **www.technium.co.uk/challengeuk** neu gallant ofyn am ffurflen gais drwy e-bostio **mari@technium.co.uk**

Rhaglen y Gystadleuaeth 2009/2010

- **Cam 1 – Ymgeisio**

  Ar ôl derbyn y ceisiadau, cysylltir â'r ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn gymwys i gymryd rhan. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau yw **dydd Gwener 26 Mawrth 2010***.

  ***Dylech nodi, y cynharaf y gwneir y cais, po fwyaf o amser fydd gan y cystadleuwyr i wneud y defnydd gorau o'r cefnogaeth sydd ar gael ar gyfer datblygu'r cynllun busnes.**

- **Cam 2 – Datblygu Cynllun Busnes**

  Gofynnir cystadleuwyr i baratoi'r cynlluniau busnes yn barod i'w cyflwyno i'r beirniaid. Mae gan gystadleuwyr y rhyddid i ddewis fformat y cynllun busnes, ond rhaid iddo fod mor gryno a chlir a phosibl. Fe fydd cyngor a chymorth ar gael am ddim gan nifer o gwmnïau proffesiynol trwy gydol y gystadleuaeth, ac hynny wrth ofyn amdanynt, a thrwy raglen ddigwyddiadau'r gystadleuaeth.

  Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r cynllun busnes terfynol yw: **dydd Iau 29 Ebrill 2010**.

- **Cam 3 – Dewis y Rhestr Fer**

  Fe fydd panel beirniadu rhagarweiniol yn asesu'r ceisiadau'n annibynnol cyn cyfarfod i gytuno ar restr fer o 6-8 o ymgeiswyr a fydd yn mynd ymlaen i'r cam terfynol.

- **Cam 4 – Y Broses Feirniadu Derfynol a Chyflwyniadau**

  Gofynnir i'r cystadleuwyr ar y rhestr fer wneud cyflwyniad byr i'r panel beirniadu terfynol, fel rhan o'r broses benderfynu derfynol. Mae'n debygol y bydd hyn yn digwydd yn ystod yr **wythnos sy'n dechrau ar 31 Mai 2010**.

Y Seremoni Wobrwyo

Cyhoeddir y'r enillydd a'r ail-oreuon yn Seremoni Wobrwyo Technium, a fydd yn cael ei chynnal yng Nghymru ar **ddydd Iau 24 Mehefin 2010**. Gwahoddir yr holl gystadleuwyr i'r cinio hwn i rwydweithio a dathlu'r ffaith eu bod wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth.

Fe fydd i fyny at 150 o gwmniau technoleg yn mynychu'r digwyddiad blynyddol mawreddog hwn sydd hefyd yn cynnwys gwobrau ar gyfer yr enillydd ac ail-oreuon yng Nghystadleuaeth Technium Rhyngwladol (cystadleuaeth ar wahân a hyrwyddir ar draws 16 gwlad). Mae'r digwyddiad hefyd yn dathlu nifer o wobrau ar gyfer cwmnïau preswyl Technium.

Mae Cystadleuaeth Technium yn gystadleuaeth cynllunio busnes a drefnir gan Technium. Mae Technium yn rhwydwaith o 12 canolfan arloesi ledled Cymru, ac sy'n cefnogi tyfiant mewn busnesau technoleg. Cefnogir Technium gan Gynulliad Llywodraeth Cymru a noddiant cydgyfeiriol Ewropeaidd.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â threfnwyr y gystadleuaeth:-

Mari Arthur, Mari Arthur Marketing

Rhif ffôn: 07799 431060
E-bost: mari@technium.co.uk

www.technium.co.uk/challengeuk

G/MH/3379/09-09 © Hawlfraint y Goron 2009